

Beirniadaeth Cystadleuaeth 336

Prosiect Gwyddonol Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)

Beirniad: Cai Ladd

Yn gyntaf: Gwyr 5 – ‘Triniaeth Effeithiol Cyntaf ar gyfer Clefyd Huntington’

Roedd y traethawd amserol hwn ar ddarganfyddiad diweddar ar driniaeth effeithiol gyntaf ar gyfer clefyd Huntington yn ddarn pwerus, dealladwy, ac ysgogol. Er ei fod yn bwnc cymhleth, gwnaeth yr arddull ysgrifennu aeddfed a'r defnydd o enghreifftiau trwy gydol y traethawd hwn yn hawdd ei ddeall ac yn bleserus i'w ddarllen. Cipiodd yr ymadrodd detholiedig "Mae'r baich o wybod eich tynged yn gallu bod yn drymach na'r baich o beidio â gwybod amdani" y moeseg gymhleth ynghylch clefyd Huntington ac etifeddiaeth enetig yn berffaith. Ardderchog.

Yn ail: Gwyr 3 – ‘Deallusrwydd Artiffisial mewn Meddygaeth’

Archwiliodd y traethawd amserol a manwl hwn yn feirniadol y manteision a'r anfanteision o ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA) mewn meddygaeth, i ddod i'r casgliad medrus fod ganddo le mewn meddygaeth fodern. Er y byddai manylion mwy penodol ynghylch sut yn union y defnyddir DA mewn meddygaeth wedi'u croesawu, mae'r darn yn archwilio ystod eang o gymwysiadau sy'n gorfodi'r darlennydd i gytuno â chasgliadau'r awdur.

Yn drydydd: Gwyr 2 – ‘Y tu hwnt i'r ofariau: Anhwylder atgenhedlu bellach yn gyflwr cardiometabolaidd’

Gwnaeth lefel uchel iawn y traethawd hwn argraff arnaf, yn trafod y canfyddiad diweddar bod PCOS yn gysylltiedig ag anhwylderau systemig, cardiofasgwlaidd, a metabolaidd. Er bod yr ysgrifennu ychydig yn drwchus ar adegau o ystyried natur gymhleth y pwnc, roedd yn amlwg bod y darn hwn wedi'i ymchwilio'n da, wedi'i ddeall gan yr awdur, ac yn tynnu sylw at ymchwil bwysig iawn ar iechyd menywod.